

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd
Dydd Mawrth 16 Mawrth 12.30-2pm
Telegynhadledd



<u>Yn Bresennol</u>	
Aelodau'r Bwrdd: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Paul Orders Sarah McGill Gareth Newell Fiona Kinghorn Abigail Harris Andy Robinson (AR) Keith Meredith Alun Michael Mark Brace Wendy Gunney Hannah Williams Sheila Hendrickson-Brown	Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfoeth Naturiol Cymru Rheolwr Grŵp, GTADC Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Prif Swyddog Gweithredol, C3SC
Ymddiheuriadau: Jo Salway Gareth O'Shea Len Richards Huw Jakeway	Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Tân, GTADC
Hefyd yn bresennol: Sian Sanders Nathan Swain Clive Bailey Anne Wei Victoria Legrys Dr Navroz Masani	Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol Cyfarwyddwr y Rhaglen, BIP Caerdydd a'r Fro BIP Caerdydd a'r Fro

Rhif	Eitem Agenda	
1/2	<p>Croeso a Chyflwyniadau Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021 a nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau. Nodwyd nad yw Iechyd Meddwl Plant yn eitem ar yr agenda hon ac y byddai'n cael ei ystyried fel rhan o drafodaeth ehangach ar yr Adferiad Ôl-bandemig 'Da i Blant'.</p>	
3.	<p>Diweddariad COVID-19</p> <p>Rhoddodd Fiona Kinghorn drosolwg o'r ffigyrau Covid-19 diweddaraf yng Nghaerdydd. Nodwyd, er bod y sefyllfa bresennol yn sefydlog, bydd angen monitro'r sefyllfa wrth i'r cyfyngiadau symud lacio ac ymddygiad ddechrau newid.</p> <p>Amlygwyd pryder yn y gydberthynas rhwng adroddiadau bod y pigiad AstraZeneca yn achosi clotiau gwaed a ffigur diffyg presenoldeb o 20% mewn un o'r safleoedd brechu torfol. Cadarnhawyd bod hyn yn cael ei ystyried yn fanylach a bod cyfathrebu â'r cyfryngau lleol a chenedlaethol yn cael eu datblygu.</p>	
4.	<p>BIPCaF - Llywio ein Gwasanaethau Clinigol 2020/30</p> <p>Rhoddodd Victoria Le Gryd (Cyfarwyddwr Rhaglen) a Dr Navroz Masani drosolwg ar y cynlluniau arfaethedig ar gyfer trawsnewid y ffordd y mae cleifion yn cael mynediad at wasanaethau clinigol yn eu cartrefi, eu cymunedau a'u hysbytai.</p> <p>Mae'r ymgynghoriad ar y cynigion ar agor tan 19 Ebrill 2021. Gwahoddwyd sefydliadau partner i roi eu hadborth ac i gysylltu os ydyn nhw am drefnu sesiynau ymgysylltu â thimau penodol.</p> <p>Cadarnhawyd bod digideiddio gwasanaethau yn rhan allweddol o'r rhaglen welliannau.</p> <p>Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu, bydd cynigion mwy penodol yn cael eu datblygu ac yn cael eu dwyn yn ôl i'r BGC.</p>	Ysgrifenydd
5.	<p>Adfer ac Adnewyddu ar ôl Covid</p> <p>Amlinellodd Gareth Newell bedwar adroddiad sy'n cael eu datblygu gan y Cyngor. Cynigir y bydd pob un o'r meysydd gwaith hyn yn cael eu hystyried gan y BGC yn ystod y misoedd nesaf.</p>	Ysgrifenydd

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>Datblygu'r Ddinas - ymateb i argyfwng Covid-19 er mwyn adeiladu economi ôl-bandemig gryfach, mwy cynhwysol a chynaliadwy</p> <p>Cyflawni Adferiad sy'n Dda i Blant - gan gynnwys effaith y pandemig ar addysg, hawliau, lles plant a phobl ifanc a llwybrau i gyflogaeth yn y dyfodol</p> <p>Rhaglen weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyflawni gweledigaeth Caerdydd Un Blaned a gytunwyd gan y Cabinet yn hydref 2020.</p> <p>Dyfodol gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y newid tuag at fod yn sefydliad ystwyth, defnydd cynyddol o dechnolegau digidol a data wrth ddarparu gwasanaethau, a chymhwyso gwaith ardal ar gyfer gwasanaethau rheng flaen yn y gymuned.</p>	
6.	<p>Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol</p> <p>Rhannodd Sian Sanders ddiweddariad ar Adolygiadau Dynladdiadau Domestig oedd yn ddyledus i'w cyhoeddi.</p>	
7.	<p>Unrhyw Fusnes Arall ac Edrych tua'r Dyfodol</p> <p>Mae Adroddiad Holi Caerdydd 2020 wedi'i rannu â'r Bwrdd.</p> <p>Rhoddodd Gareth Newell drosolwg o'r dull arfaethedig o ddiweddarau Aseiad o Les Lleol BGC Caerdydd. Bydd Grŵp Data yn cael ei sefydlu gyda chynrychiolaeth traws-BGC i sicrhau bod yr holl ddata priodol yn cael ei ystyried.</p> <p>Nododd y Comisiynydd Alun Michael y bydd yn bwysig cynnwys canfyddiadau o ddiogelwch ac ystyried canfyddiadau o waith Uned Atal Trais Cymru a Bwrdd Cymunedau Diogel Llywodraeth Cymru.</p> <p>Edrych tua'r Dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymateb i'r Adroddiad Craffu Gwasanaethau a Chymorth Lles ac Iechyd Meddwl Plant • Iechyd meddwl oedolion a niwed cudd • Adroddiad blynyddol Symud Mwy Bwyta'n Dda • Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid 2020/2022 - diweddariad ar gynnydd (BGC, mis Mehefin) 	
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 14 Ebrill 2021 • 9 Mehefin 2020 	